**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU**

Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd Dydd Llun, 5 Gorffennaf 2021.

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Aelodau oedd yn bresennol**:-:-

Y Cynghorydd M Adams (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd W Lewis | Y Cynghorydd J Bonetto |
| Y Cynghorydd G Caple | Y Cynghorydd M Griffiths |
| Y Cynghorydd G Hughes | Y Cynghorydd P Jarman |
| Y Cynghorydd Owen-Jones | Y Cynghorydd W Jones |
| Y Cynghorydd S Rees | Y Cynghorydd E Stephens |

**Swyddogion yn bresennol:-**

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr R Waters, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Rheng Flaen

**Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr**

Mr Nicholas Paines QC,
Rheolwr y Garfan, Henni Ouahes,
Cyfreithiwr, Carfan y Gyfraith Gyhoeddus, Lisa Smith

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol**

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol T. Williams - Pwyllgor Craffu - Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant
Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Edwards, Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu - Plant a Phobl Ifainc
Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Yeo - Pwyllgor Craffu Iechyd a Lles

**9 Ymddiheuriadau**

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J Brencher, J James ac A Cox. Derbyniwyd ymddiheuriad hefyd gan Mr J Fish - Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr â Phleidlais

**10 Cyfleuster Ymchwil Craffu**

Dywedodd y cadeirydd wrth yr Aelodau am y cyfleuster ymchwil craffu ar gael yn Uned Busnes y Cyngor i gynorthwyo Aelodau â'u cyfrifoldebau craffu a'u rolau'n Aelodau Etholedig. Dylid anfon unrhyw geisiadau i'r cyfeiriad e-bost craffu.

**11 Datganiad o Fuddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**12** **Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2021 yn rhai cywir.

**13** **Dolenni Ymgynghori**

Penderfynodd yr Aelodau gydnabod yr wybodaeth oedd wedi'i darparu trwy'r dolenni ymgynghori mewn perthynas ag ymgynghoriadau agored, ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru a'r materion hynny y mae'r awdurdod lleol yn cynnal ymgynghoriadau ynglŷn â nhw.

**14** **RHAGLENNI GWAITH Y CABINET A'R PWYLLGORAU CRAFFU AR GYFER 2021-22**

Gyda chytundeb y Cadeirydd, cafodd yr agenda ei thrafod mewn trefn wahanol o ganlyniad i broblem dechnegol, a hynny er mwyn rhoi mwy o amser i'r rhanddeiliad allanol ymuno â'r cyfarfod.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei adroddiad a oedd yn gofyn i'r Aelodau gymeradwyo Rhaglen Waith ddrafft y Pwyllgor ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021/22 a nodi unrhyw bynciau ar Raglen Waith y Cabinet y gall y Pwyllgor yma graffu arnyn nhw ymlaen llaw. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod sesiynau ymgysylltu Cabinet/Craffu wedi'u cynnal yn ddiweddar

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth at y cyfarwyddyd a nodwyd yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), sy'n trafod dull gweithredu mwy penodol o ran craffu. Mae hyn wedi bod yn bwnc trafod yn ystod y sesiynau ymgysylltu diweddar rhwng Aelodau'r Cabinet a Chadeiryddion y Pwyllgorau Craffu perthnasol. Codwyd ychydig o bwyntiau gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth megis rhag-graffu ar y Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM) cyn i'r Cabinet ei drafod mewn Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Arbennig yn ddiweddarach ym mis Gorffennaf.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, awgrymwyd y dylai'r Pwyllgor lunio ei ymateb ffurfiol i ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith ar Reoleiddio Diogelwch Tomenni Glo yng Nghymru yn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Arbennig ar 16 Gorffennaf, yn dilyn trafodaethau cychwynnol gyda Chomisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr yn y cyfarfod heddiw. Byddai'r dull hwn yn caniatáu cyfle pellach i ystyried ymateb y Pwyllgor a'i roi ar waith yn ffurfiol.

Codwyd ymholiad mewn perthynas ag amseriad yr adroddiadau Adran 19 statudol, a gaiff eu trafod gan y Pwyllgor ym mis Medi 2021. Yn dilyn yr ymchwiliadau parhaus y mae'r Cyngor yn eu cynnal i'r Llifogydd ym mis Chwefror, ag yntau'n Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (LLFA) o dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r adroddiadau yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor ar ôl eu cwblhau, ac y bydden nhw'n cael eu trafod mewn setiau, gyda'r cyntaf i gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar 21 Medi 2021.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y byddai adroddiadau terfynol o ran 'Moderneiddio Gofal Preswyl a Gofal Oriau Dydd i Bobl Hŷn' yn cael eu dwyn gerbron y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu cyn diwedd y flwyddyn galendr.

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu y byddai'n gofyn, gyda chytundeb y Pwyllgor, i'r Cyfarwyddwr AD gyflwyno'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol i'r Pwyllgor ac iddo gael ei ychwanegu at y Rhaglen Waith ar gyfer y Dyfodol.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD**:

1. Cytuno ar y Rhaglen Waith ar gyfer y Dyfodol ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021/22 yn amodol ar y diwygiadau/ychwanegiadau canlynol:

   - Y byddai'r ymateb ffurfiol i ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith ar Reoleiddio
   - Diogelwch Tomenni Glo yng Nghymru yn cael ei lunio yn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Arbennig ar 16 Gorffennaf 2021 yn dilyn trafodaethau cychwynnol gyda chynrychiolwyr Comisiwn y Gyfraith;
   - Bod yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol yn cael ei gynnwys yn Rhaglen Waith ar gyfer y Dyfodol y Pwyllgor, ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021/22.

**15 Comisiwn y Gyfraith ar gyfer Cymru a Lloegr - Cynigion i wella diogelwch tomenni glo yng Nghymru**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei adroddiad gan ddweud wrth y Pwyllgor fod cynrychiolwyr o Gomisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr yn bresennol yn y cyfarfod i amlinellu'r cynigion o ran ymgynghori ar y drefn ddiogelwch newydd ar gyfer tomenni glo yng Nghymru.

Cyflwynwyd y cyflwyniad Power Point 'Rheoleiddio Diogelwch Tomenni Glo yng Nghymru' o dan y penawdau canlynol:

- Y gyfraith gyfredol a phroblemau gyda'r gyfraith gyfredol
- Cynigion Arfaethedig
- Cwestiynau enghreifftiol ar gyfer Rhanddeiliaid
- Ymgynghori

Ymatebodd cynrychiolwyr o Gomisiwn y Gyfraith, Mr Nicholas Paines QC a Lisa Smith, Cyfreithiwr, i nifer o gwestiynau:

- A fydd y ddeddfwriaeth newydd arfaethedig, i ddisodli deddfwriaeth 1969, yn Ddeddfwriaeth Sylfaenol sy'n ddeddfwriaeth ledled y DU neu'n ddeddfwriaeth eilaidd, gan ychwanegu at Ddeddf 1969;
- A yw'r brîff yn cynnwys ystyried atebolrwydd o ran tomenni glo neu a fydd hyn yn aros y tu allan i'r brîff?
- A yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn Ddeddfwriaeth Sylfaenol o fewn y DU?
- Beth sy'n digwydd gyda Thirfeddianwyr absennol?

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Llywodraeth Cymru wedi gwahodd Comisiwn y Gyfraith i gynnal adolygiad annibynnol o ddeddfwriaeth diogelwch tomenni glo, gyda diogelwch yn dod o dan fesurau datganoledig. Mae gan y Senedd y grym i lunio cyfundrefn newydd a'i phasio fel Deddfwriaeth Sylfaenol, byddai'n fater i Lywodraeth y DU pe byddai'n dymuno efelychu cyfundrefn Cymru.

Dywedodd Comisiwn y Gyfraith nad oes ganddo awdurdodaeth i argymell i ba raddau y dylai Llywodraeth y DU ryddhau cyllid pellach. Byddai angen i'r Senedd wneud penderfyniad polisi ynghylch a yw cost adfer tomenni yn deillio o arian cyhoeddus neu gan dirfeddianwyr unigol. Mae'r cynllun deddfwriaeth cyfredol yn golygu mai'r tirfeddiannwr sy'n gyfrifol, ond bydd Comisiwn y Gyfraith yn argymell strwythur eang sy'n sicrhau cyllid o arian cyhoeddus pan fydd ar gael, ac yn rhoi cyfle i godi tâl ar dirfeddianwyr am ddarnau unigol o waith neu drwy ffi flynyddol.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Rheng Flaen drosolwg o'r cyfundrefnau arolygu a gaiff eu dilyn yn RhCT. Ar hyn o bryd mae'r Tasglu Diogelwch

Tomenni, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â'r Awdurdod Glo, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a'r Awdurdodau Lleol yn adolygu'r tomenni ledled y wlad. Mae'r Awdurdod Lleol yn parhau i gynnal asesiadau risg ac archwilio ei domenni, ac mae'r Awdurdod Glo yn cefnogi'r gwaith yma.

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y gwaith hyd yma yn dilyn y tirlithriad a ddigwyddodd ar ochr bryn Llanwynno, Tylorstown, yn ogystal â thrafodaethau gyda Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r awdurdod lleol ynghylch cyllido cam dau a thri (amcangyfrifir mai cost hyn fydd oddeutu £2.5 miliwn). Mae'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhannu ar wefan y Cyngor (a chaiff yr Aelodau lleol eu hysbysu) sy'n cynnwys trosolwg o Gam 4 a gweledigaeth y Cyngor ar gyfer yr ardal yma yn y dyfodol.

Cododd rhai Aelodau bryder ynghylch y diffyg gwybodaeth o ran yr angen i roi sylw ar unwaith i unrhyw domenni yn yr awdurdod lleol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod dros £1 miliwn wedi'i wario ar gynnal a chadw tomennydd yn rheolaidd yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22. Nod hyn oedd lliniaru risgiau ac mae ymchwiliadau pellach yn parhau ar nifer o safleoedd a allai arwain at waith mwy sylweddol. Mae'r Awdurdod Glo yn bwriadu gwneud rhywfaint o waith ar Domen Wattstown Standard (dan berchnogaeth breifat) ac mae mesurau monitro o bell wedi'u gosod ar y cyd â'r Awdurdod Glo yn Nhomen Wattstown National, sy'n eiddo i Gyngor RhCT. Mae'r gwaith archwilio rheolaidd yn dal i fynd rhagddo ar bob safle er mwyn nodi problemau a'u rheoli. Caiff trafodaethau â'r Aelodau Lleol eu cynnal cyn i unrhyw waith sylweddol gael ei gyflawni, ac mae'r wybodaeth hefyd yn cael ei rhannu â'r cyhoedd ymlaen llaw.

Cododd yr Aelodau bryder y gallai tomenni glo losgi'n ddigymell o ganlyniad i danau mynydd. Trafodwyd y mater hwn ymhellach gan gyfeirio at safle Craig Y Dyffryn, a arferai fod yn eiddo i'r Arglwydd Aberdâr, a losgodd yn ddigymell ym 1969. Roedd hyn yn ddigwyddiad difrifol ar y pryd. Holodd yr Aelodau a fyddai'r ddeddfwriaeth newydd yn ystyrlon o ran yr etifeddiaeth lofaol. Dywedodd Mr Paines QC y cyfeirir at dân digymell o fewn briff ymgynghori Comisiwn y Gyfraith a dywedodd y dylid ymestyn cylch gorchwyl yr Awdurdod Lleol i'r awdurdod goruchwylio sengl i gwmpasu tân digymell. Er bod hyn yn ddigwyddiad prin, mae modd iddo ddigwydd ar unrhyw adeg.

Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd bod peirianwyr cymwys sydd ag arbenigedd yn y diwydiant glofaol yn cymryd rhan yn y broses arolygu yn dilyn cyfeiriad at ddiffyg peirianwyr cymwys yn y maes hwn. Manylodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Rheng Flaen, ar y buddion o ran cael un awdurdod goruchwylio gyda dyletswydd i oruchwylio rheolaeth yr holl domenni segur, gan nodi y byddai sgiliau'n cael eu cynnal ar draws corff arbenigol gyda'r cyfle i ddatblygu sgiliau trwy raglenni Graddedigion / Prentisiaethau ac i sefydlu'r arbenigedd a'r wybodaeth briodol o ran y ddeddfwriaeth.

I gloi, cyhoeddodd cynrychiolwyr o Gomisiwn y Gyfraith ddigwyddiad cyhoeddus ar 20 Gorffennaf 2021 lle bydd gwybodaeth bellach yn cael ei darparu am yr ymgynghoriad. Nodwyd fod croeso i'r holl Aelodau gymryd rhan a bod y Gwasanaethau Democrataidd eisoes wedi rhannu'r manylion.

Yn dilyn trafodaethau, **PENDERFYNWYD** y byddai'r ymatebion ymgynghori drafft a nodwyd yn sylwadau ac adborth yr Aelodau yn cael eu trafod a'u ffurfioli yng nghyfarfod arbennig y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar 16 Gorffennaf 2021 am 2pm.

**16 Adolygiad y Cadeirydd a dod â'r cyfarfod i ben**

Crynhodd Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu y pwyntiau allweddol a godwyd o'r trafodaethau cynharach o ran y Rhaglen Waith ar gyfer y Dyfodol, a gafodd ei chytuno gan yr Aelodau yn amodol ar gynnwys yr Adroddiad Cydraddoldebau. Ychwanegodd hefyd y byddai ymateb ffurfiol yn cael ei lunio ar gyfer y cynigion i wella diogelwch tomenni glo yng Nghymru yng nghyfarfod dilynol y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar 16 Gorffennaf 2021.

I gloi, diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cyfraniadau, a diolchodd i Gomisiwn y Gyfraith am eu presenoldeb.

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.10 pm**

**Y Cynghorydd M. Adams**
**Cadeirydd.**